

Tasg 1

Noson Bananas!

1. Gosodwch y digwyddiadau hyn yn y drefn gywir o 1 i 8.

	Trefn y digwyddiadau
mynd i ganolfan ailgylchu	
paratoi gweithgareddau ar gyfer y noson	
cyhoeddi enillydd y gystadleuaeth gwisg ffansi	
Siôn yn mynd i'r Noson Bananas	
dechrau trafod ailgylchu	1
band yr ysgol yn chwarae	
Miss Evans yn awgrymu cynnal digwyddiad arbennig	
y Pennaeth yn agor y noson	

2. Pam dewisodd y dosbarth gynnal Noson Bananas tybed?

Cliciwch ar y wefan yma am gliw:

<http://www.recycleforwales.org.uk/cy/news/2017-02-24-tirnodau-cymru-yn-hollol-bananas-dros-ailgylchu-bwyd>

3. Pa fath o weithgareddau drefnon nhw?

--

4. Beth arall gallen nhw fod wedi ei drefnu er mwyn ceisio perswadio pobl i ailgylchu bwyd?

5. **Gweithgaredd grŵp**

Mewn grŵp, dychmygwch eich bod chi'n trefnu digwyddiad arbennig i geisio perswadio pobl i ailgylchu bwyd. Trafodwch:

- beth rydych chi'n mynd i'w gynnal
- ble
- pryd – dyddiad ac amser
- beth yn union fydd yn digwydd (bwyd / diod / adloniant / cerddoriaeth / gwestai neu westeion / cymeriad o gêm neu lyfr o bosib ... ac ati ...)
- pa fath o wisg ddylai pobl ei wisgo
- unrhyw wybodaeth arall (e.e. Oes cynnig arbennig yn ystod y digwyddiad? Sut byddwch chi'n rhoi gwybod i bobl? ac ati).

- a. Gwnewch ddiagram i gofnodi eich syniadau, e.e. diagram gwe pry cop neu ddiagram tebyg.
- b. Cymharwch eich syniadau chi â syniadau grwpiau eraill. Gan bwy mae'r syniad gorau, tybed?

Ewch i'r dudalen nesaf.

- c. Ysgrifennwch ddarn am y digwyddiad ar gyfer y papur bro lleol.